

## ADRAN 5

### Dysgu, hyfforddiant a chymwysterau

Mae gwahanol ffyrdd i Gynorthwyyr Personol ddysgu a datblygu'r sgiliau priodol a'r wybodaeth sydd ei hangen i'ch cynorthwyo yn effeithiol.

- Mae **hyfforddiant personol yn y gwaith** wedi'i gynllunio'n benodol i fodloni gofynion y cyflogwr. Gellir ei gyflwyno mewn ffyrdd gwahanol. Mae llawer o gyflogwyr yn hyfforddi eu Cynorthwyyr Personol eu hunain ar sut i'w cynorthwyo gyda thasgau penodol. Gallech hefyd ofyn i Gynorthwyydd Personol newydd wyllo Cynorthwy-ydd Personol arall neu ofalwr teuluol sy'n brofiadol.
- **Hyfforddiant anffurfiol** – mae hyn yn helpu Cynorthwy-ydd Personol i ddysgu sgiliau newydd ond nid yw'n arwain at gymhwyster cydnabyddedig. Gallai fod yn gwrw byr gyda thystysgrif i ddysgwyr sydd wedi ei gwblhau'n llwyddiannus.

“Fe wnaeth y cwrs alluogi i'm Cynorthwy-ydd Personol ddeall beth rwy'n ei wynebu a chanlyniadau'r salwch. Roedd hi'n deall pethau.” Cyflogwr Cynorthwy-ydd Personol.

- **Hyfforddiant ffurfiol** – mae hyn yn arwain at gymhwyster, er enghraifft Diploma Lefel 3 mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol. Gelwir y rhain yn gymwysterau achrededig. Bydd yr hyfforddiant yn cael ei gynnal yn y coleg neu gyda darparwr dysgu, sy'n cyflwyno cyrsiau hyfforddi. Gellir gwneud rhan o'r hyfforddiant ffurfiol ar gyfer Cynorthwyyr Personol yng nghartref y cyflogwr hefyd.

#### Astudiaeth achos

Mae Canolfan Byw'n Annibynnol **Dewis**, sy'n darparu gwasanaethau cymorth taliadau uniongyrchol, ac awdurdod lleol Rhondda Cynon Taf, yn gweithio mewn partneriaeth i roi cyfleoedd i Gynorthwyyr Personol ennill cymhwyster. Er 2012, maent wedi cyflwyno Diploma Lefel 3 FfCCh mewn Iechyd a Gofal Cymdeithasol, gan ddatblygu diwrnodau hyfforddi a ffyrdd o gynorthwyo ac asesu i adlewyrchu natur rôl y Cynorthwy-ydd Personol. Fe wnaeth gwerthusiad annibynnol nodi hyn yn enghraifft o arfer da ac mae'n adlewyrchu'r effaith gadarnhaol ar y Cynorthwyyr Personol a'r cyflogwr taliadau uniongyrchol fel ei gilydd.

<http://www.cgymru.org.uk/cynorthwyydd-personol/>

#### Astudiaeth achos

Mae **Diverse Cymru**, sy'n darparu gwasanaethau cymorth taliadau uniongyrchol, wedi gweithio gydag **Agored Cymru** <http://www.agored.org.uk/Units/Unit/CDD362> i

datblygu uned Dysgu Gydol Oes gyda Sicrwydd Ansawdd Lefel 1 sy'n paratoi pobl ar gyfer gweithio fel Cynorthwy-ydd Personol. Mae'n rhoi cyflwyniad i gydraddoldeb o ran anabledd, amddiffyn a diogelu defnyddiwr y gwasanaeth, rôl, dyletswyddau a chyfrifoldebau Cynorthwy-ydd Personol a chyfrifoldebau iechyd a diogelwch.

“Roedd y cwrs yn addysgiadol iawn ac yn berthnasol i'm gwaith fel Cynorthwy-ydd Personol. Rwy'n credu ei fod yn gwrs y dylai pob Cynorthwy-ydd Personol ei fynychu i gael gwell dealltwriaeth o'i rôl.” Cynorthwy-ydd Personol

- **Hyfforddiant ar y rhyngwrwyd** - caiff hyn ei alw weithiau yn e-ddysgu ac mae fel arfer yn cynnwys ymarferion neu gyfarwyddiadau sydd ar gael trwy'r rhyngwrwyd. Weithiau, defnyddir cryno ddisgiau a DVDau gyda'r math hwn o hyfforddiant. Gall eich Cynorthwy-ydd Personol wneud hyn pan fydd yn gyfleus iddo/iddi neu gall gyd-fynd â'ch diwrnod. Mae angen i hyfforddiant ar y rhyngwrwyd gael ei asesu gan yr unigolyn sy'n ei ddefnyddio i wneud yn siŵr ei fod yn bodloni unrhyw anghenion mynediad. Daw mewn fformatau gwahanol o astudiaethau achos fideo, deunydd rhyngweithiol, neu Aps sy'n gallu cael eu lawr lwytho i ffonau symudol neu gyfrifiaduron llechen.

Rhai enghreifftiau:

Mae Cyngor Gofal Cymru wedi datblygu sawl Ap symudol, gan gynnwys Diogelu –profi eich gwybodaeth sy'n profi gwybodaeth gweithwyr gofal cymdeithasol am sut i gadw pobl yn ddiogel

<http://www.cgymru.org.uk/aps/>

Archwiliwch Aps eraill a ddatblygwyd gan y Cyngor Gofal

<http://www.cgymru.org.uk/aps/>

Mae'r Sefydliad Gofal Cymdeithasol er Rhagoriaeth hefyd yn darparu fideos am ddim ar amrywiaeth o bynciau i helpu dysgu ar Social Care TV

<http://www.scie.org.uk/socialcaretv/index.asp>

Ceir modiwlau e-ddysgu sy'n ymdrin â thestunau fel gofal dementia a sgiliau cyfathrebu gan y Sefydliad Gofal Cymdeithasol er Rhagoriaeth

[www.scie.org.uk/publications/elearning](http://www.scie.org.uk/publications/elearning)

“Fe wnes i ddysgu cymaint am ddiogelwch yn y cartref ar y cwrs ar-lein yr oedd fy nghyflogwr wedi dod o hyd iddo. Roedd yn brofiad da a doeddwn i erioed wedi gwneud e-ddysgu o'r blaen. Ar ôl cwblhau, fe wnaethom ni eistedd a thrafod yr hyn roeddwn i wedi ei ddysgu a'r hyn y gallem ni ei wneud yng nghartref fy nghyflogwr i leihau peryglon.” Janet, Cynorthwydd Personol

## **Sut i gael mynediad at hyfforddiant a chymwysterau**

Mae ffyrdd gwahanol o gael mynediad at ddysgu a chymwysterau priodol. Gallwch:

- drafod gyda'ch Gwasanaeth Cymorth Taliadau Uniongyrchol, eich awdurdod lleol neu ddarparwyr hyfforddiant eraill
- cysylltu â'r cydlynnydd Partneriaeth Datblygu Gweithlu Gofal Cymdeithasol sy'n gweithio yn eich awdurdod lleol.

## **Beth i'w ystyried wrth chwilio am hyfforddiant**

- Pa mor berthnasol yw'r hyfforddiant?
- A yw nodau'r hyfforddiant yn glir?
- A yw'r hyfforddwr/ darparwr dysgu yn brofiadol?
- A yw hyd, amser a lleoliad yr hyfforddiant yn addas?
- Sut caiff yr hyfforddiant ei gyflwyno?
- A yw'r hyfforddiant wedi'i achredu? h.y. yn cael ei asesu a'i ardystio
- A yw'n cynnwys gwaith parhaus neu aseiniadau?
- Beth yw'r goblygiadau o ran costau, gan gynnwys cost cyflenwi staff?
- Efallai y bydd sefydliadau cymorth taliadau uniongyrchol yn gallu darparu cyngor ychwanegol.